# Polisi Ymddygiad a Lles Ysgol Gynradd Aberaeron

**Cyflwyniad:**

**• Rydym yn ymfalchio yn yr awyrgylch ac ymagwedd cynhwysol sy'n bodoli yn ein hysgol arbennig ni. Fel Ysgol gyfan, rydyn ni'n darparu addysg or radd flaenaf mewn amgylchedd ddysgu diogel, hapus, gofalgar ac ysgogol, sy'n sicrhau bod pob plentyn yn ein gofal yn derbyn cyfleoedd eang i gyrraedd ei lawn botensial. Credwn yn gryf bod hybu a datblygu safonau uchel mewn ymddygiad a lles ymysg ein disgyblion yn elfen allweddol o sicrhau safonau rhagorol ar draws y cwricwlwm. Er mwyn cyflawni hyn, mae'n holl bwysig bod gan bob aelod o Gymuned ein hysgol deallusrwydd clir o'n amcanion craidd, ein disgwyliadau a gweithdrefnau hybu ymddygiad a lles.**

**Ein amcanion craidd yw:**

***Sicrhau bod pob plentyn yn ein gofal yn cyrraedd ei lawn botensial trwy darparu cwricwlwm eang a chytbwys i bawb po bynnag ei allu, anabledd a chefndir diwyllianol.**

***Hybu safonau presennoldeb, ymddygiad a lles corfforol ac emosiynol uchel, trwy sicrhau gweithdrefnau ac ymarfer cynhwysol effeithiol ysgol gyfan a darparu Cwricwlwm Addsyg Bersonsol a Chymdeithasol eang.**

***Paratoi ein disgyblion i fod yn ddysgwyr anibynnol a gydol oes, trwy sicrhau darpariaeth rhagorol ar gyfer datblygu'r sgiliau allweddol o Lythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol.**

***I ddatblygu dysgwyr gwbl ddwyieithog sy'n ymfalchio yn y diwylliant a threftadaeth sy'n unigrwy I Gymru trwy hybu cymreictod a defnydd yr iaith ym mhob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol, ar draws ein cwricwlwm ac mewn cyfleoedd allgyrsiol hwylus.**

***I ddatblygu dysgwyr fyd-eang, gweithgar, sy'n barod I gyfrannu at y gymuned leol a chenedlaethol trwy hybu llais y dysgwr ym mhopeth a wnawn, darparu cyfleoedd diansyddiaeth weithgar a chynnal prosiectau cwricwlaidd rhyngwladol a rhai sy'n cwmpasu ACDFE.**

**●Mae y Polisi hwn gan ddisgyblion, Athrawon a Chymorthyddion Ysgol ac mae'n adlewyrchu'r canllawiau cenedlaethol canlynol:**

***UN Rights of the Child Charter *Pupil and Inclusion Support 2015 *Practical Approaches to Behaviour Management in the Classroom 2012 *WAG Guidance on Exclusions 2012 *Safe and effective intervention-the use of reasonable force and searching for weapons 2010**

**•Dylid darllen y polisi hwn law yn llaw gyda'n:**

***Polisi Gwrth-Fwlio *Polisi Dwylo Diogel *Polisi Dysgu ac Addysgu *Polisi AAA *Polisi Presennnoldeb *Polisi Diogleu ac Amddiffyn Plant *Cytundeb Ysgol/Cartef *Prosbectws yr ysgol**

1. **Amcanion ein Polisi Ymddygiad a Lles yw :**

**•datgan yn glir ein disgwyliadau ymddygiad er mwyn hybu hunan-barch a pharch at eraill fel bod dysgu ac addysgu effeithiol yn digwydd ym mhob dosbarth ar draws yr ysgol**

**•datgan yn glir ein gweithdrefnau ar gyfer hybu ymddygiad a lles da a sut yr ydym fel ysgol yn ymdrin a digwyddiadau o gam-fihafio trwy ddefnyddio dulliau Disgyblaeth Gadarn.**

**•sicrhau bod staff, rhieni a disgyblion yn deall ein gweithdrefnau am: Reolau –Gwobrywo-Canlyniadau**

**•I hybu'n gwerthoedd craidd trwy hybu cyfrifoldeb, gonestrwydd, parch a thegwch**

**•I hybu hawliau plant a dioglewch, hapusrwydd a lles y disgyblion in ein gofal.**

2. **Ein disgwyliadau Ymddygiadol: (CAM 1)**

Mae ymddygiad da yn elfen sylfaenol wrth i ni sicrhau dysgu ac addysgu da ym mhob dosbarth. Rydyn ni fel ysgol, wedi llunio 6 disgwyliad craidd ar gyfer dysgu. Mae'n ofynnol i bob un o fewn cymuned ein hysgol gofio a dilyn rhain. Rydyn ni'n sicrhau bod rhain yn glir i bawb ac mae'nt wedi eu harddangos ar draws yr ysgol. Mae'r athrawon yn cyfeirio at rhain yn gyson,er sicrhau bod hawliau pawb i gael dysgu mewn amgylchedd diogel a chynhwsol yn cael eu hamddiffyn.

Yn Ysgol Gynradd Aberaeron mae gennym 6 disgwyliad craidd sy'n cael eu ddysgu'n gyson. Lluniwyd rhain gan ddisgyblion a staff ein hysgol:

- **Rydyn ni'n dilyn cyfarwyddiadau pob aelod o gymuned ein hysgol.**
- **Rydyn ni'n cadw dwylo, traed a geiriau cas atom ni ein hunain.**
- **Rydyn ni'n rhewi pan mae'r athrawon yn clapio 1-2-3.**
- **Rydyn ni'n goflau am eiddo ein hunain, eraill â'r ysgol**
- **Rydyn ni'n dilyn y rhif sydd ar ein swn-omedr**
- **Rydyn ni'n rhoi ein gorau glas ym mhopeth a wnawn –yn ein chwarae ac y nein gwaith**

## 4.Hybu Ymddygiad a Lles da (Perthnasoedd)

**Credwn gryf bod rhaid meithrin perthnasoedd da rhwng staff, disgyblion a rhieni ac ymysg disgyblion, er mwyn sicrhau ymddygiad a lles da i bawb. Datblygwn perthnasoedd da gyda'n disgyblion trwy:**

•Cyfarch ein plant mewn ffordd hapus a chyfeillgar ar ddechrau pob diwrnod a gwirio lles emosiynol ein disgyblion trwy ddefnyddio'r siart "Teiml-omedr".

•Creu ethos gofalgar a chefnogol ym mhob dosbarth sy'n hybu hunan-werth pob disgybl

•Defnyddio llais y disgybl ym mhopeth a wnawn er sicrhau cyd-berchnogaeth o weithdrefnau a thaith dysgu'r dosbarth

•Darparu sesiynau Amser Cylch Wythnosol er mwyn hybu gonestrwydd, cyfrifoldeb, sgiliau cyfathrebu a chymdeithasol.

•Sicrhau adborth a chanmoliaeth llafar ac ysgrifennedig positif am ymdrech, ymddygiad a gwaith safonol gan gynnwys defnydd effeithiol o ddulliau asesu ar gyfer dysgu amrywiol.

•Defnyddio Bocs Becso er mwyn rhoir cyfle I drafod pryderon personol mewn ffordd sensitif a chynhwysol

**Mae'n hysgol ni yn ysgol rhiant-gyfeillgar ac rydym yn hybu perthnasoedd da gyda'n rhieni trwy:**

•weithredu polisi drws agored strwythredig er mwyn cynnal trafodaethau personol

•sicrhau bod ein cytundeb ysgol/cartref yn datgan yn glir ein disgwyliadau ymddygiad, ein gweithdrefnau canmol a gwobrwyo a'n gweithdrefn canlyniadau

•ddanfon "neges neis" adref yn ddyddiol ac am wobrau a ennillwyd gan eu plant

•hysbysu rhieni am gam-ymddwyn â'r canlyniadau a roddwyd yn syth ar yr un diwrnod

•cynnwys rhieni yn dysgu eu plant trwy rhannu targedau dysgu eu plant, cynnal nosweithiau rhieni rhyngweithiol a gweithdai a rhaglenni dysgu teulu rheolaidd

•cynnwys rhieni mewn gweithgareddau cymdeithasol yr ysgol

Anelwn at gydweithio effeithiol gyda'n rieni, fel bod ein plant yn derbyn negeseuon cyson am ddisgwyliadau ymddygiad da adref ac yn yr ysgol.

**5.Hybu Ymddygiad a Lles da (Dysgu ac Addysgu):**

Mi fydd ein Cynllun Ymddygiad yn cael ei ddysgu'n gyson ac mi fydd yn weledol ar draws dosbarthiadau'r ysgol er mwyn sicrhau cyd-ddealltwriaeth gan bawb. Mi fydd gan pob aelod o staff yr ysgol disgwyliadau ymdddygiad uchel ac mi fyddant yn darparu cwricwlwm o ansawdd. Mae hyn yn cynnwys cwrciwlwm ABCH pwrpasol er mwyn cyflawni safonau ymddygiad a lles uchel. Wrth gynllunio gwersi rhagorol, mi fyddwn yn rhoi sylw penodol i anghenion unigol ein disgyblion gan gynnwys y ffyrdd neu dulliau dysgu y maen't yn hoffi, er mwyn sicrhau ymglymiad llawn at wersi ar lawr y dosbarth. Rydym yn sicrhau bod pob aelod o staff yn derbyn hyfforddiant ymddygiad a lles blynyddol, er mwyn sicrhau bod gan ein staff y wybodaeth a'r sgiliau angenrheidol i gyflawni'r cynllun yn effeithiol.

**6. Hybu Ymddygiad a Lles Da Amser Chwarae**:

*Rydyn ni wedi cynllunio gweithdrefnau Amser Chwarae gyda disgyblion ein hysgol

*Rydyn ni'n arddangos ein rheolau Amser Chwarae ar arddangosfeydd lliwgar o gwmpas ardaloedd chawarae'r ysgol

*Rydyn ni'n gweithredu cynllun Parthiau Chwarae Plant o gwmpas tiroedd yr ysgol

*Rydyn ni'n hyffodrri'n staff cynorthwyol I ddefnyddio cynllun ymddygiad a lles yr ysgol yn gyson

*Mae gennym ni  6 Swyddogion Iard a elwir yn….e.e. “Mets Y Morfa”  “Ffrindiau’r Ffynnon”

*Mae gennym ni Mainc Ffrindiau

*Mae gennym ni ardaloedd tawel ar gyfer ymlacio

*Rydyn ni’n gweithredu clybiau amser cinio ac mae rhain yn cynnwys Clwb Garddio a Chlwb “Gwneud Gwahaniaeth”

**7. Canmoliaeth a Gwobrwyo (CAM 2)**

Anelwn i ganmol ein disgyblion ar bob achlysur ac mae hyn yn cynnwys canmoliaeth ac adborth llafar ac ysgrifennedig yn llyfrau’r plant. Rydyn ni’n defnyddio sticeri, stampiau a dull 2 seren a dymuniad er mwyn hybu hunan-werth ac hyder ein disgyblion. Mae’r dulliau yma’n arwain at lwyddiant personol ac addysgol. **Mae ein gweithdrefnau er mwyn gwobrwyo disgyblion wedi ei osod yn glir islaw:**

**(Esiampl) Mae nifer o ffyrdd gwahanol o wneud hyn…**

***Mae pob dosbarth yn gweithredu “Ser y Dydd” (x2 disgybl)  Mae’r disgyblion hynny yn derbyn sticer a thystysgrif neu slip Seren y dydd I fynd adref. Mae eu henwau’n mynd i mewn ir Llyfr Ser yr wythnos.**

***Pob Wythnos, mi fydd y Pennaeth yn cynnal Gwasanaeth Dathlu Llwyddiant ac yn cynhoeddi pwy yw Ser yr wythnos (x2 o bob dosbarth) allan or enwau sydd o fewn Llyfr Ser pob Dosbarth. (Mae hyn wedi cael ei ddewis gan yr Athro Dosbarth o flaen llaw)**

***Mae Ser yr Wythnos o bob dosbarth yn cael dewis gwobr or fwydlen gwobrwyo:**

**<u>Ein Bwydlen Gwobrau a lunwyd gan ein disgyblion:</u>**

| **Meithrin/Derbyn** | **Bl. 1 a 2** | **Bl. 3 a 4** | **Bl. 5 a 6** |
|---|---|---|---|
| **Diod Hudol,<br>Cregyn hud,<br>Carreg hudol,<br>Swyn hudol mewn botel,<br>Llun Lliwio,<br>Creon tew,** | **Pensil,<br>Dileuydd,<br>Sticer Mawr,<br>Potel Swigod,<br>Band neu clip gwallt,<br>Poster Lliwio,** | **Pensil,<br>Dileuydd,<br>Naddwr,<br>Sticeri,<br>Key-Ring,<br>Bathodyn Beic,<br>Cerdyn Top-Trump,** | **Talebau Llyfr,<br>Cerdiau Top Trumps,<br>Llyfr nodiadau/Dyddiadur,<br>Calendr,<br>Cyntaf I ginio,** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfle I ddewis stori'r diwrnod,<br>Cyfle I ddewis cerddoriaeth ir dosbarth,<br>Cyfle I ddewis can y dydd,<br>Cyfle I ddewis lliw y dydd,<br>Cyfle I eistedd ar glustog arbennig,<br>Cyfle I ddod mewn a Tegan neu llyfr o adref,** | **Pensiliau lliwio,<br>Cyfle i ddod mewn ag anifail anwes,<br>Cyfle i greu arddangosfa neu bwrdd arddangos am ei hunain,<br>Cyfle i ddod mewn a thrysor o adref a siarad amdano,<br>Ennill cyfle i wneud darn o gelf neu crefft gydag oedolyn o fewn yr ysgol,<br>Cyntaf I ginio,** | **Cerdyn Pel Droed,<br>Adnoddau Crefft,e.e. Brws Paen a Chanfas<br>Eistedd ar gadair arbennig am y diwrnod,<br>Eistedd wrth ffrind gorau am ddiwrnod,<br>Eistedd ar fwrdd Miss….. am ddiwrnod,<br>5 munud ychwanegol o amser chwarae….<br>Cyfle I ddarllen stori I ddisgybl cyfnod Sylfaen,<br>Cyfle I ddysgu sgil TGCH Newydd I ddisgyblion llai neu athrawon yn yr ysgol,** | **Eistedd gyda Miss…i ginio,<br>Siawns i chwarae gen gydag athro….<br>5 munud amser chwarae ychwnaegol,<br>Cyfle i wisgo dillad ei hunain am ddiwrnod,<br>Cyfle I ddysgu gwers I ddisgyblion Cyfnod Sylfaen,<br>Sesiwn grefft neu chwaraeon unigol gydag oedolyn,<br>Cyfle I helpu yn y swyddfa am ddwy awr,<br>Bod yn athro bach am ½ diwrnod,<br>Cyfle I drefnu gweithgaredd arbennig o fewn yr ysgol** |

**8.Canlyniadau (CAM 3)**

Yn anffodus ym mhob ysgol, mi fydd yno adegau pryd mae disgyblion yn dewis camyddwyn. Rydyn ni'n ymdrin â'r digwyddiadau hynny mewn ffordd têg a chyson gan ddilyn ein cynllun hybu ymddygiad a lles. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

•**Camymddwyn 1:** Atgoffaf geiriol cyntaf (2 munud i feddwl)

• **Camymddwyn 2:** Yr 2ail Atgoffa geiriol (2 munud I feddwl)

•**Camymddwyn 3**: Colli 5 munud Amser Chwarae a slip melyn adref **(Cerdyn Melyn)**

•**Camymddwyn 4**: Colli 10 Munud Amser Chwarae Play a slip Oren adref **(Orange Card)**

**•Achosion Difrifol: Mewn achos mwy difrifol o gamymddwyn e.e. ymosodiad corfforol neu bwlian, mi fydd y plentyn yn derbyn cerdyn coch yn syth ac mi fyddwn yn gwahodd rhieni mewn i drafod y digwyddiad yn llawn ac i benderfynnu ar y cyd, y canlyniadau priodol.**

**Gall hyn gynnwys colli breintiau am gyfnod. Mi fyddwn yn ymdrin ar achosion hyn yn unigol.**

•Wrth ddarparu canlyniadau, rydym yn ymdrÎn â phob plentyn yn dêg ond yn gadarn er mwyn amddiffyn hawliau pob un sydd yn ein gofal. Defnyddiwn iaith gorfforol a llafar tawel, têg a chyson sy'n annog disgyblion i gymryd cyfrifoldeb dros ymddygiad eu hunain. **e.e. "Sam, y dewis yw darllen gyda dy ffrindiau nawr neu darllen ar ben dy hunan ar fwrdd arall. Gwna'r dewis cywir, os gwelwch yn dda".**

**"Anwen, rwyt wedi dewis siarad gyda dy ffrindiau yn ystod y 10 munud diwethaf, felly rwyt wedi dewis colli 5 munud o amser chwarae bore ma".**

## 9. Ymddygiad Heriol ac Anghenion Dysgu Ychwanegol

### CAM 1

**Disgyblion heriol a bregus:** Mae gan rai plant anghenion penodol sy'n dangos ymddygiadau heriol cyson. Lleolir y disgyblion hyn ar gam cyntaf cofrestr AAA yr ysgol ar **"Gweithredu Ysgol**" mewn partneriaeth llawn gyda'u rhieni. Cydweithiwn yn agos gyda rhieni i lunio Cynllun Ymddygiadol Unigol. Mi fydd CAAA a Pennaeth yr ysgol yn penderfynnu a raglen ymyrraeth priodol sy'n ddibynnol ar anghenion unigol y disgybl ac er mwyn sicrhau cynhwysiant llawn y disgybl hwnnw o fewn ein hysgol. Yn ein hysgol, golyga hyn rhai or canlynol:

-Strategaethau Dosbarth Ychwanegol e.e. Cynllun Eistedd Penodol, Gwahaniaethu Penodol, Llyfr Cyswllt Cartref/Siart Ymddygiad Unigol, Defnydd o adnodd penodol e.e. Fidge-it

-Rhaglen unigol neu grwp Sgiliau Cymdeithasol

-Rhaglen unigol neu grwp Llythrennedd Emosiynol

-Cynllun Amser Cylch Strwythredig

-Cynllun strwythredig ar gyfer Amser Chwarae e.e. Cylch Ffrindiau, Bydis,

Mae achosion anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol yn eang a niferus. Mae hyn yn cynnwys cyflyrau meddygol e.e. ADHD neu cyflyrau Sbectrwm Awtistig, yn ogystal a phroblemau amrywiol o fewn bywyd teulu'r disgybl. Rydyn ni'n ymdrin a phob anhawster yn unigol ac mewn modd sensitif er mwyn sicrhau'r gefnogaeth cywir. Mae hyfforddiant Rheoli Ymddygiad a hybu Llês yn rhan o ddatblygiad proffesiynol ein staff, fel ein bod yn gallu ymdrin ag ymddygiadau mwy heriol yn effeithiol. Defnyddiwn dulliau "TEAM TEACH"

mewn achosion difrifol ac aniogel er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch disgyblion a staff ein hysgol. (Gwelwch ein Polisi "Dwylo Diogel")

**CAM 2:** Os nad yw'n strategaethau ysgol yn llwyddianus, rydym yn gallu gwneud cais am gefnogaeth a chyngor ir Panel Ymddygiad Sirol, sy'n cwrdd pob hanner tymor. Gallwn hefyd gwneud cais am gefnogaeth aml-asiantaethol. e.e. TAF, Gwasanaethau Iechyd. Hyn oll, mewn cydweithrediad llawn gyda rhieni. Os cytunwyd i dderbyn cyfnod o gefnogaeth dwys ac asesiad a monitro pellach gan asiantaethau, mi fydd y disgybl yn cael ei roi ar GAM 2 y gofrestr AAA, sef Gweithredu Ysgol a Mwy. Mi fydd asiantaethau yn cyfrannu'n llawn at Cynllun Unigol ir disgybl er mwyn sicrhau cefnogaeth arbenigol a phersonol.

**CAM 3**

Mewn rhai achosion bach, ni fydd cefnogaeth aml-asiantaethol yn cael effaith cadarnhaol ar ymddygiad y plentyn ac mi fydd rhai ymddygiadau'n torri rheolau iechyd a diogelwch yr ysgol. Mae'r ysgol yn medru gwneud cais am leoliad byr dymor i'r Uned Cyfeirio Disgyblion: Canolfan Yr Eos mewn achosion or fath hwn. Bydd yr ysgol yn cyd-weithio'n effeithiol gyda Phennaeth a staff yr uned I ddatblygu strategaethau penodol a fydd yn hybu ail-integreiddio'r disgybl nol ir ysgol prif-ffrwd o fewn dau dymor.

Yn ystod y cyfnod hwn, mi fydd Pennaeth ac athrawon UCD Ceredigion yn penderfynnu os fydd angen asesiadau pellach ar y disgybl a gwneud cais ir panel adnoddau am lefel SAPRA. Mi fydd hyn yn galluogi'r disgybl i gael mynediad i oedolyn nol yn yr ysgol prif-ffrwd. Yr Awdurod Leol sy'n gyfrifol am ysgrifennu dogfen SAPRA'r disgybl sy'n datgan yn glir y ddarpariaeth a'r gefnogaeth angenrheidol sydd angen ar y disgybl i gael mynediad llawn at addysg mewn ysgol prif-ffrwd. Mae gan blentyn SAPRA yng Ngheredigion yr hawl I adolygiad blynyddol.

**Rôl y Pennaeth mewn achosion o gam-fihafio difrifol ac achosion o Eithrio dros dro a pharhaol:**

•Rôl y Pennaeth yw cynllunio, gweithredu ac adolygu'r Polisi Ymddygiad a Lles yn reolaidd ac i adrodd nol ar effeithiolrwydd y Polisi ir Corff Llywodraethol.

•Cyfrifoldeb y Pennaeth yw sicrhau iechyd, diogelwch a lles pob disgybl sydd yng ngofal yr ysgol. Mae'n ddyletswydd ar y Pennaeth i gadw cofnodion/adroddiadau ar ddigwyddiadau o gamymddwyn difrifol a chynnal Asesiadau Risc lle bod angen gyda chefnogaeth swyddogion yr Awdurdod Addysg Leol.

•Y Pennaeth sydd âr cyfrifoldeb o benderfynnu ar eithrio disgybl dros dro yn dilyn achosion o gam-ymddwyn difrifol ac hysbysu'r Llywodraethwyr a'r Awdurdod Leol o'r penderfyniad hynny. (Defnyddir eithrio mewn achosion bach ac fel cam olaf I ddelio a materion o gamymddwyn)

●Mae gan Bennaeth hefyd yr hawl i eithrio disgybl yn barhaol am gyfres o achosion camymddwyn difrifol. Noder rol llawn y Corff Llywodraethol mewn achosion o eithrio parhaol a dros dro yng Nghanllawiau Cenedlaethol y cynulliad. Dim ond y Pennaeth neu Pennaeth mewn gofal sydd ar hawl I eithrio disgybl oddi ar safle'r ysgol. Mae gan y Pennaeth yr hawl i eithrio disgybl dros dro un waith neu mwy hyd at 45 diwrnod mewn un flwyddyn academaidd neu yn barhaol. Mae'n bosib I Bennaeth newid eithriad drosdro I un barhaol os yw tystiolaeth ychwanegol wedi ei gasglu am yr achos ac mae yna fygythiad difrifiol I iechyd a dioglewch plant a staff yr ysgol.

Mae'n rhaid bod Cadeirydd y Corff Llywodraethol a'r is-bwyllgor eithriadau wedi cael eu hysbysu am eithriadau dros dro a pharhaol ar bob achlysur. Os mae'r Pennaeth yn penderfynnu eithrio disgybl, mae'n rhaid hysbysu rhieni o fewn yr un diwrnod gan roi rhesymau teilwng. Dylid wneud hyn ar lafar yn y lle cyntaf ac wedyn mae llythyr yn dilyn. Rhaid i'r Pennaeth datgan yn glir i rieni bod ganddynt yr hawl apelio penderfyniad y Corff Llywodraethol a sut mae mynd ati I wneud hynny'n gywir. Rhaid ir Pennaeth hysbysu' Awdurdod Leol am unryw eithriad dros dro neu eithriad parhaol cyn gynted a phosib.

Mae'r Pennaeth a'r Corff Llywodraethol yn gyfrifol am weithredu ac adolygu'r Polisi hwn yn flynyddol. Disgwylir pob cefnogaeth gan rieni'r ysgol wrth weithredu canlyniadau mewn achosion o gamfihafio. Os oes gan unrhyw rhiant gonsyrn am y ffordd y mae ei plentyn yn cael ei drin o fewn ein hsygol, mae croeso I chi gysylltu a'r Pennaeth yn y lle cyntaf. Os yw'r consyrn yn parhau, dylai rhieni gysylltu a Chadeirydd y Corff Llywodraethol. Os nad yw'r trafodaethau hyn yn datrys y broblem, mae gan rhieni'r hawl I wneud cwyn sywddogol ysgrifennedig ir Corff Llwyodraethol. Mi fyddwn yn dilyn Polisi Cwynion yr ysgol mewn achosion fel hyn.

**Cytunwyd gan staff:**

**Dyddiad Adolygiad:**

**Arwyddwyd:**

**Arwyddwyd:**